

**CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

**DYDDIAD: 14 CHWEFROR 2019**

**TEITL: CYLLIDEB 2019/20**

**PWRPAS: Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**

**GWEITHREDIAD: Craffu'r wybodaeth, gan gynnwys y cynllun ariannol tymor-canol, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2019/20 i'r Cyngor llawn**

**SWYDDOG CYSWLLT: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

**AELOD CABINET: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS**

---

- 1.** Yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2019/20 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).
- 2.** Wedi ystyriaeth hynod drylwyr mewn dwy gyfres o weithdai aelodau, bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.
- 3.** Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach, bwriedir hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor ynglŷn â'r strategaeth ariannol ar gyfer y cyfnod 2019/20 – 2021/22 (Atodiad 8).
- 4.** Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.
- 5.** Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, ac wedyn cyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

**Atodiad:**

Cyllideb 2019/20 (adroddiad Cabinet 19/02/2019)